**Adroddiad i'r:** Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y cyfarfod:** 26 Medi 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Gadd, Prif Gyfrifydd

**Teitl:** **Ymholiadau Archwilio 2017/18**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
I gyflwyno Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y Cyngor i'r ymholiadau hynny.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Roedd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), fel archwilwyr allanol penodedig CSDd, ddyletswydd i gasglu tystiolaeth am sut mae rheolwyr a'r unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu (Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn CSDd) yn cyflawni eu dyletswyddau i atal a chanfod twyll. Mae'r llythyr yn nodi'r gofynion ac mae manylion yr ymatebion wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
Bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cadarnhau yn ffurfiol yr ymatebion sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

**4. Manylion yr Adroddiad**
Mae ymatebion y rheolwr (Richard Weigh, Pennaeth Cyllid) a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (Cynghorydd Barry Mellor, Cadeirydd PLIC) wedi'u nodi yn Atodiad 1. I grynhoi, mae'r ymatebion yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at y meysydd canlynol o lywodraethu:

- Prosesau rheoli sydd ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
- Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
- Prosesau i gael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- A oes unrhyw ymgyfreithiad posibl neu hawliadau a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.
- Prosesau i adnabod, awdurdodi, cymeradwyo, cyfrif am a datgelu trafodion partïon cysylltiedig a pherthnasoedd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae'r broses archwilio allanol flynyddol yn ategu stiwardiaeth ariannol a threfn lywodraethol y Cyngor ac felly yn cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Gofynnodd Swyddfa Archwilio Cymru am ymatebion gan Richard Weigh fel Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 a'r Cynghorydd Barry Mellor fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’n bwysig fod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb dros atal a chanfod twyll ym mhob agwedd o’i waith. Mae’r sicrwydd y mae’r SAC yn ei geisio mewn cysylltiad â thwyll yn ffurfio gwiriad defnyddiol i sicrhau bod prosesau priodol ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg yw y gallai twyll arwain at gamddefnyddio asedau'r Cyngor neu gamddefnyddio neu gam-fynegi datganiadau ariannol. Mae'r ymatebion gan reolwyr a’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn helpu i ddangos fod prosesau ar waith er mwyn adnabod ac ymateb i’r risg o dwyll a bod digon o reolaethau mewnol ar waith i liniaru’r risgiau hynny.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae’r Safon Ryngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon) 240 (ISA 240) yn nodi mai'r rheolwyr a’r ‘rheini sydd yng ngofal llywodraethu’, sef y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yng Nghyngor Sir Ddinbych, sydd yn bennaf gyfrifol am atal a chanfod twyll. Mae ISA 240 yn nodi’r gofyniad am archwiliad allanol i gael dealltwriaeth o sut mae’r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau.